## Cwestiynau Gwerthuso Tendr Dirprwyo Arlwyo Prifysgol Abertawe, Cynaliadwyedd a CCC - Medi 2021

| Meini Prawf Lefel 1 | Meini Prawf Lefel 2 | Meini Prawf | Pwysiad |
|---|---|---|---|
| **Cynaliadwyedd a CCC** | Rheoli a Pherfformiad | Rhowch fanylion y fframwaith/fframweithiau y byddwch yn eu defnyddio yn Abertawe i sicrhau dull gwella’n barhaus ym maes arlwyo iach a chynaliadwy sydd wedi’i archwilio’n annibynnol ac a gydnabyddir gan y diwydiant . Rhaid i'r Brifysgol barhau i gyflawni safle yn y 10 prifysgol orau yng Nghynghrair Werdd Genedlaethol, People and Planet. Yr unig ffordd o wneud hyn yw drwy gyflawni a gwella meini prawf arlwyo'r gynghrair. Dangoswch sut bydd y polisi bwyd iach cynaliadwy a'r cynllun gweithredu'n cyflawni hyn. Mae'r Brifysgol yn chwilio am y canlynol:<br>• Gwobr ”gweinir bwyd am oes yma” Cymdeithas y Pridd neu gydnabyddiaeth gyfwerth.<br>• Cymorth wrth sicrhau bod y Brifysgol yn “Brifysgol Masnach Deg”<br>• Ardystiad MSC | 1% |
| | Argyfwng hinsawdd | Rhowch enghreifftiau a thystiolaeth o sut byddwch yn cefnogi ymrwymiadau strategaeth cynaliadwyedd y Brifysgol er mwyn lleihau allyriadau carbon a'r gwastraff a gynhyrchir o gadwyn gyflenwi, gweithrediadau a chynnyrch y gwasanaeth arlwyo. Mae'r Brifysgol wedi gwneud<br>ymrwymiad cyhoeddus i weithredu ar yr argyfwng hinsawdd. Mae gan arlwyo'r Brifysgol rôl allweddol wrth leihau allyriadau uniongyrchol y campws a'r rhai hynny o gadwyn gyflenwi’r gwasanaeth arlwyo a chynnyrch a gynhyrchir. Nodwch sut byddwch yn cefnogi'r Brifysgol gyda'r canlynol:<br>• Mesur a chyflawni allyriadau carbon cwmpas 1 a 2 sero-net (e.e. mewn ceginau, ardaloedd gwasanaeth ac mewn cerbydau) a gostyngiad o 50% mewn allyriadau carbon cwmpas 3 (e.e. yn eich cadwyn gyflenwi a chynhwysion, teithio a dŵr, gwastraff) erbyn 2035.<br>• Lleihau gwastraff (gan gynnwys plastigion defnydd untro a gwastraff bwyd)<br>• Lleihau'r defnydd o ddŵr a dŵr gwastraff<br>Efallai byddwch am ystyried gofynion safon cegin werdd Cymdeithas y Pridd neu safon/arweiniad cyfwerth i gefnogi eich tystiolaeth ar gyfer y cwestiwn hwn. | 1% |
| | Arlwyo Iach | Rhowch enghreifftiau manwl o sut byddech yn sicrhau bod gwasanaeth arlwyo'r Brifysgol yn bodloni safonau'r llywodraeth ar gyfer bwyd a diod iach.<br>Rhowch enghreifftiau sy'n berthnasol i ofyniad y Brifysgol i gyflawni Safon Aur Iechyd | 1% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Arlwyo Iach ac arferion gwerthu bwyd a diod yn eich atebion. | |
| | Ffynonellau cynnyrch a manteision cymunedol | Nodwch eich ymagwedd at ffynonellau bwyd gan gynnwys manylebau a'r gallu/parodrwydd i:<br>• Brynu bwyd tymhorol yn lleol.<br>• Cefnogi rhwydweithiau elusennau bwyd a thlodi lleol<br>Addysgu ar fwyd iach cynaliadwy<br>Dangos eich bod yn deall ymrwymiadau cynaliadwyedd y Brifysgol o ran y canlynol:<br>• Caffael bwyd, gan gynnwys cyflenwyr lleol rydych yn bwriadu eu defnyddio a sut gallwch gysylltu â'r economi leol. Rhowch dystiolaeth o sut rydych wedi mynd ati mewn mannau eraill i gleientiaid yng Nghymru a chyda phrifysgolion eraill.<br>• Sut rydych yn bwriadu cydweithio â'r Brifysgol ac elusennau i archwilio ffyrdd o leihau gwastraff bwyd a thlodi bwyd lleol.<br>Addysgu myfyrwyr a staff am arferion arlwyo cynaliadwy a moesegol iach a sut gallech chi weithio gyda chynlluniau tyfu llysiau cymunedol ar y campws. | 1% |
| | Amrywiaeth | Disgrifiwch sut byddwch yn sicrhau bod y ddarpariaeth arlwyo'n adlewyrchu amrywiaeth cymuned y Brifysgol, ac yn benodol, yr angen i ddarparu ar gyfer ystod eang o ddeietau e.e. fegan, llysieuwyr, dim glwten, crefyddol a diwylliannol.<br>Rhowch enghreifftiau o opsiynau deiet arbennig a fydd ar gael yn y cysyniadau a'r mannau arlwyo gwahanol.<br>Gan gyfeirio at eich ymateb i'r cwestiynau gweithredol a chyflwyno gwasanaeth, nodwch amrywiaeth eich darpariaeth bwyd a sut byddwch yn gallu datblygu hyn i gyd-fynd â'r galw dros gyfnod y contract. | 1% |